Bl7: Gwers 1: Cestyll

Nod y Wers: Datblygu gwybodaeth am gefndir y cestyll yng Nghymru

Tasg 1: Sgiliau Meddwl – Grid GED. Beth ydych chi'n gwybod am gestyll? Pa wybodaeth a dealltwriaeth sydd gennych yn barod am y testun yma?

Gwybod?.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Tasg 2: Sgiliau Meddwl – Grid GED. Beth arall hoffech chi gwybod am gestyll? Meddyliwch am gwestiynau i ddarganfod mwy o wybodaeth e.e Beth, Pryd, Pam, Pwy, Sut, Ble

Eisiau gwybod? .....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Geirfa

Adfeilion	*Ruins*
Diflannu	*Disappear*
Twristiaid	*Tourists*
Perchyn	*Own*
Amddiffyn	*Defend*
Difrodi	*Damage*

Mae yna dros 400 o gestyll yng Nghymru ond erbyn heddiw mae bron pob un yn adfeilion (ruins). Mae rhai cestyll wedi diflannu'n llwyr, eraill yn denu miloedd o dwristiaid yn flynyddol ond mae beth sydd ar ol yn parhau i'n hatgoffa o'u pwysigrwydd yn hanes Cymru. Gyda chymaint o gestyll mewn gwlad mor fach ei maint, mae mwy o gestyll i bob milltir sgwâr i'w cael yng Nghymru na unrhyw wlad arall yng Ngorllewin Ewrop.

Mae'r cestyll yn dod o gyfnod pan oedd Cymru'n wynebu ymosodiadau (attacks) gan elynion (enemys) oedd yn penderfynol i reoli'r wlad yn gadarn.

Dros y blynyddoedd, mae yna nifer o arweinwyr (leaders) wedi adeiladu a pherchyn ar gestyll yng Nghymru. Yn gyntaf daeth yr ymosodiad Normanaidd ar ol 1066. Aethent ati i adeiladu cannoedd o gestyll mwnt a beili wrth iddynt goncro'r wlad e.e Yr Wyddgrug, Hwlffordd. Ymatebodd y Cymry trwy adeiladu eu cestyll eu hunain i geisio amddiffyn eu tiroedd. I sicrhau rheolaeth dros Gymru ar ol dau ryfel (1277-78 a 1283-84), adeiladodd Brenin Lloegr Edward I cyfres o gestyll cerrig a chonsentrig o gwmpas Gogledd Cymru e.e Conwy, Caernarfon.

Bu llawer o'r cestyll yn newid dwylo fwy nag unwaith wrth i arweinwyr gwahanol concro Cymru. Os oedd castell yn syrthio i ddwylo'r buddugwyr(victor), gallai gael ei ddefnyddio i'w mantais nhw. Weithiau byddai'n cael ei addasu, neu byddai castell newydd yn cael ei adeiladu ar y safle.

Ar adegau eraill, os oedd y castell wedi ei ddifrodi'n ddrwg mewn brwydr, ac felly'n ddi-werth fel safle i amddiffyn, byddai'n cael ei ddinistrio fel na allai unrhyw un ei ddefnyddio eto.

Tasg 3: Sgiliau Meddwl - Grid GED

Wedi dysgu.
Lefel Efydd: Faint o gestyll sydd yng Nghymru?

.....

.....

Lefel Arian: Disgrifiwch y mathau o gestyll adeiladwyd yng Nghymru. Rhowch enghreifftiau.

.....

.....

.....

.....

.....

Lefel Aur: Yn eich barn chi, pam fod hi'n bwysig ein bod ni'n dysgu am gestyll yng Nghymru?

.....

.....

.....

.....

.....

.....